#### J. CHWILIO AM GEISIADAU

Mae angen sicrhau bod pwerau Cronfa Dreftadaeth y Loteri i chwilio am geisiadau yn cael eu defnyddio'n unol ag amcanion strategol.

Mae'r staff datblygu ym mhob un o'n timau gwlad a rhanbarth yn targedu eu hymdrechion ar gynyddu niferoedd y ceisiadau o ardaloedd sydd heb wneud llawer o geisiadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn y gorffennol. Rydym hefyd yn gweithio gyda staff tebyg o ddosbarthwyr Loteri eraill mewn digwyddiadau hyrwyddo ar y cyd, lle gellir bodloni'n hamcanion tebyg o ysgogi ceisiadau newydd a gwell.

#### K. PENDERFYNIADAU

Mae angen gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniadau am bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol anrhyngol lle mae angen.

Mae'r holl ddeunyddiau ymgeisio'n anelu at gael gwybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y bydd y prosiectau y maent yn eu cynnig yn bodloni'n blaenoriaethau strategol, ynghyd â

gwybodaeth ychwanegol am sut y bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno er mwyn i'w beryglon a'i gyfleoedd gael eu cydbwysu'n llawn. Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn parhau i geisio cael cyngor arbenigol am agweddau allweddol nifer o geisiadau sy'n cael eu gwneud, gan asiantaethau statudol yn y sector treftadaeth a chan arbenigwyr proffesiynol eraill, er enghraifft, yn y sectorau addysg, mynediad, rheoli prosiectau neu gynllunio busnes, er mwyn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau gan staff, Pwyllgorau a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

### **CYFARWYDDIADAU ARIANNOL**

Dan Ddeddf y Loteri Cenedlaethol etc. 1993, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi Cyfarwyddiadau Ariannol ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i gynnwys trin ceisiadau a grantiau. Nodir y rhain isod. Mae copi o'r Datganiad o Ofynion Ariannol ar gael gan y Pennaeth Cyllid a Gweinyddu yn y cyfeiriad isod.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ('y Corff') yn cydymffurfio â'r gofynion a gynhwysir yn y Datganiad o Ofynion Ariannol, sydd wedi'i amgáu fel Atodiad i'r cyfarwyddiadau hyn, wrth ddilyn eu swyddogaethau dan adran 25 Ddeddf y Loteri Cenedlaethol etc. 1993 ('y Ddeddf'), fel y diwygiwyd hi gan Ddeddf y Loteri Cenedlaethol 1998 ('Ddeddf 1998'). Lle bynnag y pennir yn yr Atodiad hwnnw, rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn ymgymryd â gweithgareddau penodol.

Bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn dyfeisio ac yn glynu at weithdrefn ar gyfer delio â gwrthdaro diddordeb posibl a allai godi wrth i'r Corff neu aelodau unigol o'r Corff hwnnw arfarnu ceisiadau. Dylai'r weithdrefn hon, ynghyd â datganiad yn cadarnhau'r trefniadau sydd wedi'u defnyddio, gael ei chyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ('yr Ysgrifennydd Gwladol') cyn i unrhyw arian gael ei ddosbarthu, dan adran 25 y Ddeddf, ac wedi hynny ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cadarnhau ei bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r Cyfarwyddiadau yn y flwyddyn 2002–03. Mae cyfrifon llawn Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnwys Datganiad ar y system rheolaeth ariannol fewnol. Mae hyn yn manylu'r weithdrefn reoli sydd wedi'i sefydlu ac a ddefnyddir gan y Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau ei hun bod cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau. Mae'r cyfrifon llawn hefyd yn cynnwys (fel nodyn 15) nodyn am drafodion partïon perthynol a'r gweithdrefnau sydd ar gael i atal gwrthdaro diddordeb rhag digwydd.

Gellir archwilio cofrestr o ddiddordebau Ymddiriedolwyr yn ystod oriau swyddfa yn:

7 Holbein Place  
Llundain SW1W 8NR

Cysylltwch ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr ar:  
020 7591 6015

## **GWYBODAETH GEFNDIR**

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (NHMF) ei breinio yn a'i gweinyddu gan gorfforaeth a elwir yn Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd a dim mwy na 14 aelod arall a benodir gan y Prif Weinidog. Ffurfiwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Dreftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') yn dilyn y Gronfa Dir Genedlaethol i gofio am y rhai a aberthodd eu bywydau dros y Deyrnas Unedig. Estynnwyd pwerau'r Ymddiriedolwyr a'u cyfrifoldebau gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Cenedlaethol etc 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Dreftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Cenedlaethol 1998 ('Deddf 1998').

Dan Ddeddf 1993, daeth Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gyfrifol am ddsbarthu cyfran o elw'r Loteri Cenedlaethol a gaiff ei neilltuo i dreftadaeth. Rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer y cymorth grant a gaiff ac a ddyrennir ganddi, ac ar gyfer ei rôl fel dosbarthwr cronfeydd y Loteri Cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cronfeydd fel Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer symiau a ddyrannwyd dan ddarpariaethau Deddf 1980 a Chronfa Dreftadaeth y Loteri am y derbyniadau o Ddeddf 1993.

Dan adran 21 (1) o Ddeddf 1993, cynhelir cronfa dan reolaeth a rheoliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfngau a Chwaraeon a elwir yn Gronfa Dosbarthu'r Loteri Cenedlaethol (NLDF). Telir pob swm a dderbynnir o drwydded y Loteri Cenedlaethol dan adran 5(6) i'r Ysgrifennydd Gwladol, a chânt eu gosod ganddi hi yn NLDF. Bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gwneud cais i NLDF am arian i fodloni taliadau grantiau a chostau gweinyddu.

Dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm hynny a delir i mewn i NLDF ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu'n gysylltiedig â hi. Mae adran 23(3) yn sefydlu Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fel dosbarthwyr y gyfran honno. O ganlyniad, gostyngwyd canran y dyraniad i 16.7% ym mis Hydref 1997, yn dilyn creu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gan y Llywodraeth. Dan adran 3 o Ddeddf 1980, gall Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ddyfamu grantiau a benthyciadau o'r Gronfa at ddibenion prynu, cynnal a chadw neu ddiogelu:

- unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr; o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;
- unrhyw wrthrych sydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn nhw;
- unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau sy'n gasgliad neu grŵp cyfan o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn nhw.

Mae adran 4 Deddf 1993 yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr er mwyn iddynt allu helpu gwella arddangos eitemau sydd o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol trwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu wella gwybodaeth y cyhoedd.

Dan Ddeddf 1997, gall Ymddiriedolwyr gynorthwyo prosiectau sy'n ceisio gwella dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o dreftadaeth hefyd a dehongli a chofnodi agweddau

pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirlun y genedl. Ar ôl ymgynghori ag ymgeiswyr posibl, cynghorwyr; a chyrrff eraill, sefydlwyd mentrau newydd – yn ymwneud â grantiau refereniw (i ehangu mynediad i dreftadaeth yn gyffredinol), yn ogystal â meysydd archeoleg, treflun, technoleg gwybodaeth ac addysg. Rhoddodd Deddf 1998 bŵer i'r Ymddiriedolwyr i ddirprwyo penderfyniadau am grantiau Loteri i staff, a hefyd i bwyllgorau yn cynnwys rhai aelodau annibynnol.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar ffurf a dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) o Ddeddf 1993.

## **ADOLYGIAD GWEITHREDOL**

Rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003, cafwyd 1,424 o geisiadau uniongyrchol am grantiau – cynnydd o fwy na 17% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y ceisiadau hyn yn gofyn am grantiau o fwy na £681m – gostyngiad bychan ers 2001–02. Awgryma hyn fod ein dymuniad i geisio ac annog ceisiadau gan sefydliadau llai yn llwyddo i ryw raddau.

Yn ychwanegol, mae ceisiadau a dderbynnir gan sefydliadau sy'n bartneriaid, sy'n prosesu ceisiadau ar ein rhan, wedi cynyddu. Rhoddodd y cynllun Arian i Bawb, sy'n cael ei redeg ar ein rhan gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol (y Gronfa Gymuned), grantiau o ryw £4.9m (cynnydd o'r £3.6m y llynedd). Talodd y Fenter Dreftadaeth Leol, sy'n cael ei rhedeg ar ein rhan gan Asiantaeth Cefn Gwlad, grantiau o bron i £3m (dair gwaith yn fwy na'r llynedd). Cafodd ein cynllun newydd, Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr, sy'n cael ei redeg ar ein rhan gan English Heritage, dros 600 o geisiadau a thalwyd grantiau o bron i £15m.

Mae gwaith ar fonitro achosion ar ôl dyfarnu grant wedi ei wneud ar lefel uchel. Yn ystod y flwyddyn, roedd 2,750 o brosiectau gweithredol yn cael eu monitro ar gyfartaledd (cynnydd o'r 2,500 y llynedd). Bu i ni barhau hefyd â gwaith yn ystod 2002–03 i adolygu i ba raddau y mae cyrrff a sefydliadau, sydd eisoes wedi cael grantiau gennym, yn parhau i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cytundebol sydd ynghlwm â'u grantiau. Mae gwaith pellach hefyd wedi cael ei wneud ar y fframwaith ar gyfer gwerthuso prosiectau a rhai o'n rhaglenni, a fydd yn arwain at welliannau yn y ffordd rydym yn casglu gwybodaeth am ddylanwad ein grantiau.

Ar ddechrau'r flwyddyn, yn unol â Deddf 1998, cyhoeddodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Gynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2002 a 2007. Er mwyn bodloni nodau ein Cynllun, llwyddodd NHMF i agor nifer o swyddfeydd yn y rhanbarthau yn Lloegr – Caer-wysg, Manceinion, Birmingham, Nottingham, Leeds, Newcastle a Chaer-grawnt. Mae'n staff prosesu ceisiadau bellach yn gweithio yn y rhanbarthau y maent yn eu gwasanaethu. Hefyd, ffurfiolwyd ein rôl 'dal llaw' arbennig flaenorol ar gyfer darpar ymgeiswyr drwy sefydlu timau datblygu ym mhob rhanbarth a gwlad. Mae'r timau hyn yn helpu ymgeiswyr mewn ardaloedd a chymunedau nad oedd wedi cael llawer o lwyddiant cyn hynny gyda chael grantiau gan CDL. Mae'n dal yn gynnar, ond rydym eisoes yn gweld tystiolaeth bod hyn wedi arwain at well gwasanaeth ar gyfer ein hymgeiswyr a llwyddiant wrth ddenu ceisiadau o ardaloedd nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n dda cyn hynny.

	Cyflawni cam un £m	Cymeradwyo mewn egwyddor £m	Rhoi grantiau uniongyrchol £m	Ymrwymadau cadarn £m	Cyfanswm penderfyniadau £m
Ar 1 Ebrill 2002	314.8	14.7	174.3	561.6	
Penderfyniadau'r Ymddiriedolwyr mewn blwyddyn	177.1	30.7	159.4	–	367.2
Troswyd yn y flwyddyn	(178.8)	(11.9)	190.7	–	
Troswyd yn y flwyddyn	–	–	(368.4)	368.4	
Dad-wneud ymrwymadau	(3.6)	(11.2)	(4.3)	(10.5)	
Taliadau Grant	–	–	–	(245.1)	
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>309.5</b>	<b>22.3</b>	<b>151.7</b>	<b>674.4</b>	

#### ADOLYGIAD ARIANNOL

Yn ystod 2002–03, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr ymrwymadau ysgafn newydd i roi cyfanswm o £367.2m. Roedd hyn £16m yn fwy na'r llynedd, er bod ein hincwm o'r Loteri Cenedlaethol wedi gostwng dros £35m. Roedd incwm ar gyfer yr un cyfnod yn £291m, gan gynnwys dros £61m mewn incwm buddsoddiadau a enillwyd gan Gronfa Dosbarthu'r Loteri Cenedlaethol (NLDF) ar ein rhan. Mae ymrwymo grantiau yn fwy nag incwm yn un o'r dulliau y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl eu defnyddio i leihau'r balans yn NLDF. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno i barhau i o-ymrwymo yn ystod y tair blynedd nesaf ond gan gadw golwg fanwl ar lifau arian.

Roedd ychydig yn llai na hanner y penderfyniadau (£177.1m) yn gyflawniadau cam un dan y broses dau gam. Clustnododd yr Ymddiriedolwyr £30.7m arall ar gyfer cymeradwyo mewn egwyddor, sy'n debyg i gyflawniadau cam un. Roedd gweddill penderfyniadau'r Ymddiriedolwyr (£159.4m) am ddyfarniadau grant uniongyrchol yn ystod y flwyddyn. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd cytundebau wedi'u llofnodi ar gyfer grantiau o £368.4m – h.y. ymrwymadau cadarn newydd.

Mae'r tabl uchod yn dangos yr ymrwymadau ysgafn a wnaed a hefyd droi ymrwymadau ysgafn mewn blynyddoedd blaenorol yn ymrwymadau cadarn yn 2002–03. Caiff ymrwymadau ysgafn eu troi'n ymrwymadau cadarn pan fydd cytundeb wedi'i llofnodi gyda derbynydd y grant. Mae'r oedi hwn yn digwydd oherwydd yr amser a gymer i dderbynwyr y grant godi arian arall (nawdd partneriaeth), a therfynu manylion a chostau eu prosiectau. Mewn rhai achosion, yn arbennig y prosiectau mwy, gall hyn gymryd misoedd lawer.

#### NEWIDIADAU SYLWEDDOL MEWN ASED AU SEFYDLOG

Mae Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 yn darparu i gyfrifon blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gael eu harchwilio gan y Goruchwyliwr ac Archwiliwr Cyffredinol. Ehangodd Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 hyn i weithgareddau loteri yr Ymddiriedolwyr.

#### PENODI ARCHWILWYR

Mae Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 yn darparu i gyfrifon blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gael eu harchwilio gan y Goruchwyliwr ac Archwiliwr Cyffredinol. Ehangodd Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 hyn i weithgareddau loteri yr Ymddiriedolwyr.

#### YMGYNGHORI GWEITHWYR

Mae natur gweithrediadau'r Gronfa yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau'n cydweithio'n agos â'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso prosiectau ac ymweliadau ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Bydd nifer o'r staff yn

mynychu cyfarfodydd Ymddiriedolwyr sy'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau ynghylch datblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, trwy ddsbarthu agendâu a chofnodion y Grŵp Rheoli, cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a'r ffaith ei bod yn hawdd troi atynt, mae'r uwch reolwyr yn sicrhau y gellir delio'n hawdd â materion sy'n peri pryder i'r holl staff. Mae'n hanfodol i bob aelod o'r staff gael y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyrraedd ei botensial ei hun trwy gyfrwng trafodaethau a gwaith ymgynghori rheolaidd. Mae Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod y cynnydd yn nifer y rhai sy'n gweithio i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn golygu bod angen adolygu'r trefniadau sy'n bodoli eisoes yn barhaus i sicrhau bod hyn yn parhau i ddigwydd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff ar gael. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, a bydd yn trafod materion o ddiddordeb i'r staff gyda chynrychiolwyr y rheolwyr. Mae'n cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

Un o lwyddiannau nodedig y trefniadau hyn yw'r broses ranbartholi. Roedd hyn yn golygu agor saith swyddfa newydd, cynnydd sylweddol yn nifer y staff a symudwyd rhai o'r gweithwyr. Cafodd ei gweithredu'n llwyddiannus a sicrhawyd pob aelod o'r staff a symudwyd i swydd yr oeddent yn hapus â hi.

#### CYFLE CYFARTAL

Fel cyflogwr, mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn staff neu ymgeiswyr cymwys am swyddi ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, crefydd, anabledd, oedran na thuedd rywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod yr holl benderfyniadau ynghylch recriwtio, dethol, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfaoedd yn cael eu seilio ar feini prawf gwrthrychol sy'n ymwneud â'r swydd yn unig. Nid yw'n goddef unrhyw fath o wahaniaethu, poenydio nac erledigaeth. Rhaid i'r holl staff gydweithredu i sicrhau gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol.

#### CREDYDWYR

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ufuddhau i'r safon a weithredir drwy'r llywodraeth i gyd o ran talu biliau a Chod Arfer Talu Gwell CBI, sef talu'r holl filiau dilys cyn pen 30 diwrnod. Yn 2002–03, talwyd anfonebau cyn pen 18 diwrnod calendr ar gyfartaledd. Talwyd 87% o anfonebau cyn pen 30 diwrnod.

#### EURO

Mae holl weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn digwydd yn y Deyrnas Unedig. Er y gall rhai

trafodion godi trwy gyfrwng yr ewro, ni chaiff y rhain eu trin yn wahanol i drafodion mewn unrhyw arian tramor arall. Felly, ar hyn o bryd, nid yw'r ewro yn cael unrhyw effaith ar systemau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

**Ms Liz Forgan**  
Cadeirydd  
Gorffennaf 2003

**Mrs Carole Souter**  
Cyfarwyddwraig

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R GYFARWYDDWRAIG  
A'R YMDDIRIEDOLWYR**

Dan adran 34(1) o Ddeddf y Loteri Cenedlaethol etc 1993, rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol am eu gweithgareddau dosbarthu loteri, a hynny ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cronadau, a rhaid iddynt roi barn gywir a theg am sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, a'i hincwm a'i gwariant a'i llif arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, rhaid i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol:

- i) ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, ac ymgorffori polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- ii) llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- iii) nodi a ddilyniwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol oddi wrth y datganiadau ariannol;
- iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail cwmni gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Gyfarwyddwraig, i fod yn Swyddog Cyfrifyddu y Gronfa. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb dros addasrwydd a chysondeb yr arian cyhoeddus ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a ryddheir gan y Trysorlys a'u cyhoeddi yn 'Government Accounting'.

**Ms Liz Forgan**  
Cadeirydd  
Gorffennaf 2003

**Mrs Carole Souter**  
Cyfarwyddwraig

**DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu sicrhau nodau ac amcanion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan ddiogelu asedau ac arian cyhoeddus rwyf fi'n bersonol yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn 'Government Accounting'.

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli yn hytrach na dileu'r perygl o fethu cyflawni nodau ac amcanion; felly, sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd hollol o effeithiolrwydd, y gellir ei roi ganddo.

Seiliwyd y system reolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi'r prif beryglon wrth sicrhau nodau ac amcanion, gwerthuso natur y peryglon hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarvoudus. Mae'r broses hon wedi ei gweithredu am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon a'r adroddiad blynyddol, ac mae'n cydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf fi hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae NHMF wedi pennu'r prosesau canlynol:

- i) mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod bob mis (ac eithrio ym mis Awst) i drafod cynlluniau a chyfeiriad strategol NHMF;
- ii) mae'r uwch reolwyr yn cyfarfod bob wythnos fel arfer i ystyried gweinyddu NHMF a'i pherfformiad;
- iii) adroddiadau cyfnodol am reolaeth fewnol gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- iv) adroddiadau cyfnodol gan yr archwiliad mewnol yn ôl safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys eu barn annibynnol am addasrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth NHMF ynghyd ag argymhellion i'w gwella;
- v) pwyllgorau amrywiol sy'n cynnwys aelodau o'r staff megis y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Cyngor Staff;
- vi) cofrestr o beryglon sylweddol i NHMF a adolygir gan yr uwch reolwyr bob chwarter, ac adroddiadau rheolaidd gan y rheolwyr ar y camau y maent yn eu cymryd i reoli peryglon yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Ychwanegir at ein hadolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaethpwyd gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli a'u hadroddiadau eraill.

**Mrs Carole Souter**  
Cyfarwyddwraig  
Gorffennaf 2003

# Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol

## Barn Archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am Gronfa Dreftadaeth y Loteri

### **TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD A SENEDD YR ALBAN.**

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 44 i 55 dan Ddeddf y Loteri Cenedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Cenedlaethol 1998). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbriso asedau cyfredol penodol yn ôl eu gwerth i'r busnes, trwy gyfeirio at gostau cyfredol a'r polisiâu cyfrifyddu a nodwyd ar dudalen 48.

### **CYFRIFOLDEBAU PERTHYNOL YR YMDDIRIEDOLWYR, Y GYFARWYDDWRAIG A'R ARCHWILYDD**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 13, mae Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwraig Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gyfrifol am baratoir datganiad ariannol ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Gyfarwyddwraig yn gyfrifol am baratoir cynnwys arall yn yr Adroddiad Blynyddol hefyd. Caiff fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, eu pennu gan statud a'u llywio gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwy'n rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi safbwynt cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi yn unol â Deddf y Loteri Cenedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ôl y gofynion hynny, ac a ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ym mhob ffordd faterol, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Adroddaf hefyd a yw'r Rhagair yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn fy marn i, a yw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf wedi darllen y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondeb sylweddol amlwg yn y datganiadau ariannol.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 43 yn adlewyrchu cydymffurfio gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ag arweiniad y Trysorlys 'Corporate Governance: Statement On Internal Control'. Byddaf yn adrodd os na fydd yn bodloni'r gofynion a nodwyd gan y Trysorlys, neu os bydd y datganiad yn gamarweiniol, neu os na fydd yn cyd-fynd â gwybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

### **SAILY FARN ARCHWILIO**

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i gyfansymiau, datguddiadau a chysondeb trafodion ariannol a gaiff eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Yn ogystal, mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r barnau a luniwyd gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r Gyfarwyddwraig wrth iddynt baratoir datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth

Genedlaethol, ac a gânt eu hymgorffori'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gynnal i sicrhau'r holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn ystyried bod eu hangen i roi digon o dystiolaeth i mi i roi sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol unrhyw gamddatganiad pwysig, boed o ganlyniad i gamgymeriad neu dwyll neu afreoleidd-dra arall, a bod yr incwm a'r gwariant, ym mhob agwedd o bwys, wedi'u defnyddio at y dibenion yr oedd y Senedd yn dymuno'u defnyddio, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, rydw i hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

### **BARN ARCHWILIO**

#### **YN FY MARN I:**

- i) mae'r datganiadau ariannol yn rhoi safbwynt cywir a theg o sefyllfa gweithgareddau dosbarthu'r loteri gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2003, ac o'r gostyngiad yn yr arian sydd ar gael, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwn, a'u bod wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf y Loteri Cenedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau a wnaethpwyd yng nghyswllt hynny gan yr Ysgrifennydd Gwlad dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; ac
- ii) o ran y sefyllfa faterol, bod y gwariant a'r incwm wedi'u hymgorffori at y dibenion a bennwyd gan y Senedd, a'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

#### **John Bourn**

Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol  
15 Gorffennaf 2003

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157–197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain SW1W 9SP

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
Cyfrifon Incwm a Gwariant  
am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	£'000	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Elw o'r Loteri Cenedlaethol			229,460	276,022
Incwm buddsoddi NLDF		66,741		56,203
Colled ar ailbriso buddsoddiadau yn NLDF		(5,277)		(6,150)
			61,464	50,053
			290,924	326,075
Llog a gafwyd			479	660
Ad-dalu grantiau	2		56	149
<b>Cyfanswm incwm</b>			<b>291,459</b>	<b>326,884</b>
Ymrwymadau cadarn newydd	11	(368,336)		(278,229)
Dad-ymrwymadau Cadarn	11	10,507		3,116
			(357,829)	(275,113)
Costau Staff	3	(8,263)		(6,074)
Tan-ddarparu costau pensiwn	6	(1,577)		0
Dibrisio	7	(446)		(162)
Costau gweithredu eraill	4	(12,774)		(11,055)
			(23,060)	(17,291)
<b>Cyfanswm Gwariant</b>			<b>(380,889)</b>	<b>(292,404)</b>
<b>(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian</b>			<b>(89,430)</b>	<b>34,480</b>
Adenillion tybiedig ar gyfalaf	14		0	32,458
Cynnydd mewn arian, gan gynnwys adenillion tybiedig			(89,430)	66,938
Gwrthdroi adenillion tybiedig			0	(32,458)
<b>(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian</b>			<b>(89,430)</b>	<b>34,480</b>

Nid oes enillion a cholledion yn cronni i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar wahân i'r hyn a ddatgelir yn y cyfrif incwm a gwariant. Yn ôl hynny, nid oes datganiad wedi'i baratoi o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

Mae'r holl ffigyrau a ddangoswyd yn ymwneud â gweithgareddau parhaol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 55 yn rhan o'r cyfrifon.

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
Mantolen  
ar 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	£'000	2002-03 £'000	2001-02 £'000
<b>Asedau sefydlog</b>				
Asedau sefydlog diriaethol	7		2,229	1,599
<b>Asedau Cyfredol</b>				
Buddsoddiadau – gweddill yn NLDF	9	1,020,047		993,951
Dyledwyr	8	1,970		2,502
Arian yn y banc ac mewn llaw		1,284		8,623
		1,023,301		1,005,076
Credydwyr: cyfansymiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	10		(2,219)	(3,818)
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	11		(296,477)	(256,548)
<b>Asedau cyfredol net</b>			<b>724,605</b>	<b>744,710</b>
Darpariaethau ar gyfer atebolrwydd a thaliadau	6		(176)	(3,037)
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn	11		(377,879)	(305,063)
<b>Cyfanswm asedau heb atebolrwydd</b>			<b>348,779</b>	<b>438,209</b>
<b>Cynrychiolir gan:</b>				
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		438,209		403,729
Symudiad yn y flwyddyn		(89,430)		34,480
Cyfrif Incwm a Gwariant a gariwyd ymlaen			348,779	438,209

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 55 yn rhan o'r cyfrifon.

**Ms Liz Forgan**

Cadeirydd  
Gorffennaf 2003

**Mrs Carole Souter**

Cyfarwyddwraig

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
 Cyfriflen Llif Arian  
 am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	2002-03 £'000	2001-02 £'000
<b>Gweithgareddau gweithredu</b>			
Arian a gafwyd o NLDF		264,828	262,040
Arian o ffynonellau eraill		56	444
Arian a dalwyd i weithwyr ac ar eu rhan		(12,863)	(6,111)
Arian a dalwyd i gyflenwyr		(13,918)	(9,737)
Arian a dalwyd i'r rhai a gafodd grantiau		(244,253)	(241,405)
<b>Mewnlif/(all-llif) arian net o weithgareddau gweithredol</b>	13a	<b>(6,150)</b>	5,231
<b>Adenillion buddsoddiadau a gwasanaethu cyllid</b>			
Llog a gafwyd ar gyfrifon banc		438	666
<b>Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol</b>	13b	<b>(1,627)</b>	(568)
<b>(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian</b>		<b>(7,339)</b>	5,329

Cysoni Llif Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net  
 am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	2002-03 £'000	2001-02 £'000
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian yn y cyfnod		(7,339)	5,329
<b>Newidiadau mewn cronfeydd net</b>	13c	<b>(7,339)</b>	5,329
Cronfeydd net ar 1 Ebrill		8,623	3,294
<b>Cronfeydd net ar 31 Mawrth</b>		<b>1,284</b>	8,623

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 55 yn rhan o'r cyfrifon.

# Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol

## Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

### I. DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

#### CONFENSIWN CYFRIFYDDU

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi ar ffurf wedi ei chyfarwyddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'i chymeradwyo gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol. Yr unig eithriadau yw asedau sefydlog a buddsoddiadau a gaiff eu cynnwys yn ôl eu cost presennol os bydd hyn yn arwain at gymhwyso o bwys. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir; mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, y Datganiad o Arfer Cyfrifyddu Safonol a gyhoeddir gan gyrff sy'n aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol y Cyrff Cyfrifyddu, cyn belled ag y bydd y gofynion hynny yn briodol. Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Cenedlaethol a gyflwynwyd i NHMF ym mis Hydref 2002 gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol baratoi cyfrifon cyfunol. Gellir cael copïau o Gyfarwyddiadau Cyfrifon y Loteri Cenedlaethol trwy gysylltu ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

#### ASEDAU SEFYDLOG

Darperir dibrisiad ar sail llinell union ar yr holl asedau sefydlog diriaethol, gan gynnwys y rhai a ddelid o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau wedi eu cyfrif i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei fywyd defnyddiol disgwylidig. Dyma yw'r bywydau hyn:

Eiddo ar brydles fer	– hyd y brydles
Offer swyddfa	– 4–10 mlynedd
Ffitiadau swyddfa	– 4–10 mlynedd

#### DYRANNU COSTAU

Rhennir gweithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ddwy gronfa – Cronfa Goffa'r Dreftadaeth a Chronfa Dreftadaeth y Loteri – gan adlewyrchu'r ddwy ffynhonnell incwm. Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn tynnu costau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Cenedlaethol. Rhaid i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol rannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â'r Arweiniad Ffioedd a Thaliadau a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r broses hon o rannu costau yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a gaiff eu neilltuo i bob cronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau cyfunol a rennir i Gronfa Dreftadaeth y Loteri oedd 99%. Mae canlyniadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth wedi'u cofnodi mewn cyfrifon ar wahân.

#### TRETH

Ni wneir darpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan bod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi'i hesgusodi yn statudol. Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi ymrwmo i dalu Treth Ar Werth a chaiff y gost ei chynnwys dan y penawdau gwariant perthnasol.

#### PENSIWN

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau ar y cyfrif incwm a gwariant yn ystod oes gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o gyflog pensiwn. Mae mwyafrif y staff yn aelodau o PCSPS a chânt wybod canran y cyflog pensiwn ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

#### PRYDLESI

Telir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol o'r cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell union dros gyfnod y brydles.

#### GWEDDILL YNG NGRONFA DDOSBARTHU'R LOTERI CENEDLAETHOL

Mae'r gweddill sy'n cael ei gadw yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri yn cael ei gadw o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y gweddill sydd i'w briodoli i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fel y dangosir yn y cyfrifon, ac ar ddyddiad y fantolen mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon wedi tystio ei fod ar gael i'w ddosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ymrwymadau cyfredol ac yn y dyfodol.

#### YMRWYMIADAU GRANT

Mae ymrwymadau 'ysgafn', fel y diffinnir gan Gyfarwyddyd Cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon, yn cynrychioli penderfyniadau cadarnhaol a wnaed gan Ymddiriedolwyr o ganlyniad i ddod â thrafodaethau contractiol i ben yn llwyddiannus. Pan fydd y trafodaethau contractiol hynny wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, bydd yr ymrwymadau'n cael eu disgrifio fel rhai 'cadarn'.

#### BENTHYCIAD

Mae gan Ymddiriedolwyr yr hawl i roi benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Gyfarwyddyd Cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon. Mae gan yr Ymddiriedolwyr ryddid i benderfynu'r cyfraddau llog a'r telerau ad-dalu.

### 2. AMRYWIOL INCWM

	2002–03	2001–02
	£'000	£'000
Ad-dalu grantiau	56	149

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
Nodiadau i'r Cyfrifon  
am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

**3. NIFEROEDD A CHOSTAU STAFF**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Cyflogau	6,520	4,650
Taliadau YG y cyflogwr	419	327
Taliadau i'r cynllun pensiwn (gweler nodyn 5)	779	600
Costau staff dros dro	545	497
	<b>8,263</b>	<b>6,074</b>

Mae'r ffigwr cyflogau yn cynnwys £302,804 a ad-dalwyd i staff yn ymwneud â'u symud i swyddfeydd newydd yn Lloegr; a £107,815 yn gysylltiedig â phensiwn y Cyfarwyddwr a ymadawodd. Ail-dalwyd yr holl gostau o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

**CYDNABYDDIAETH Y CADEIRYDD A'R YMDDIRIEDOLWYR**

Roedd gan bob Ymddiriedolwr yr hawl i gael ei dalu am yr amser a dreuliwyd ganddo ar weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn ogystal, talodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gostau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'r swyddfa lle'r oeddent yn gweithio yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Talodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yr atebolrwydd treth ar y treuliau hyn.

Roedd gan y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr eraill yr hawl o I Ebrill i gael cyflog blynyddol i gydnabod yr amser a dreuliwyd ganddynt ar waith Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae rôl yr Ymddiriedolwyr hynny a dalwyd, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn un o ddau fand. Ildiodd dau ymddiriedolwr eu hawl i gael cyflog.

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Ms Liz Forgan (Cadeirydd)	35-40	35-40
Syr Angus Grossart	15-20	0
Yr Athro Tom Pritchard	15-20	15-20
Mrs Primrose Wilson	15-20	15-20
Nicholas Dodd Ysw.	10-15	5-10
Yr Athro Chris Baines	10-15	0-5
James Wright Ysw.	5-10	5-10
Giles Waterfield Ysw.	5-10	0-5
Arglwyddes Lankester	5-10	0-5
Dr Mike Phillips	5-10	0
Derek Langslow Ysw.	5-10	0
Ms Catherine Graham-Harrison	0-5	0
Ms Madhu Anjali	0-5	0

Penodir pob Ymddiriedolwr am dair blynedd a gellir trefnu ail gyfnod. Cânt eu penodi gan y Prif Weinidog. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ni wnaethpwyd unrhyw gyfraniad gan y Gronfa i gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%:1%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2002-03 oedd £135,244 (2001-02: £103,698).

**CYDNABYDDIAETH Y GWEITHWYR**

Roedd y tâl i uwch reolwyr fel a ganlyn:

	Cyflog, gan gynnwys bonws perfformio 2002-03 £'000	Cynnydd go iawn yn y pensiwn yn 60 oed £'000	Pensiwn cronodig net yn 60 oed ar 31-3-2003 £'000
<b>Anthea Case (58 oed)</b>			
Cyfarwyddwraig	120-125	110-115	5-7.5
<b>Stephen Johnson (55)</b>			
Cyfarwyddwr Gweithrediadau	80-85	70-75	5-7.5
<b>Simon Olding (49) – wedi gadael ar 31/7/02</b>			
Cyfarwyddwr Polisi Treftadaeth	20-25	55-60	0-2.5
<b>Judy Cligman (43) – cychwynnodd 1/8/02</b>			
Cyfarwyddwraig Polisi Treftadaeth	55-60	dd/b	0-2.5
<b>Steve Willis (49)</b>			
Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio	80-85	70-75	5-7.5

**Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol**  
**Nodiadau i'r Cyfrifon**  
 am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

**3. NIFEROEDD A CHOSTAU STAFF (PARHAD)**

Ymddeolodd Anthea Case ar 31 Mawrth 2003. Fel rhan o'i phrecyn ymddeol, mae NHMF wedi cytuno talu ei chyfraniadau pensiwn nes bydd hi'n 60 oed, pan fydd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn ysgwyddo'r baich. Bydd hyn yn costio £107,815 i NHMF, sy'n ychwanegol i'r swm yn y tabl uchod, ac adlewyrchwyd hynny yng nghyfrifon eleni.

Roedd gan bob gweithiwr ar lefel uwch gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar sail 99%:1% (2001–02: 99%:1%).

Dyma oedd nifer y gweithwyr ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn:

	2002–03	2001–02
	Nifer	Nifer
Ceisiadau am grant	147	109
Cyllid a gweinyddu	37	35
Polisi	9	9
Cysylltiadau cyhoeddus	16	12
	<b>209</b>	<b>165</b>

Mae niferoedd staff wedi codi ar ôl agor swyddfeydd newydd yn Lloegr a chreu swyddogaeth ddatblygu o fewn yr adran Gweithrediadau. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys niferoedd staff dros dro, a oedd ar gyfartaledd yn 22 (2001–02: 22).

**4. DIFFYG ARIANNOL GWEITHREDOL**

Mae'r diffyg ariannol gweithredol wedi'i nodi ar ôl talu am y canlynol:

	2002–03	2001–02
	£'000	£'000
Cydnabyddiaeth Archwilwyr	32	31
Taliadau o dan brydlesau gweithredu		
– eiddo prydles	1,325	761
– llogi offer swyddfa	186	95

Dyma ddadansoddiad o'r costau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod:

	2002–03	2001–02
	£'000	£'000
Llety	2,003	1,157
Costau postio a theleffon	548	411
Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu	432	257
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – Ymddiriedolwyr	92	93
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff	552	382
Ffioedd proffesiynol – yn ymwneud â grantiau	3,636	3,254
Ffioedd proffesiynol – ddim yn ymwneud â grantiau	2,705	2,558
Cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu	1,386	1,044
Offer swyddfa	760	1,491
Hyfforddi staff	266	309
Dileu dyled a darpariaeth ar gyfer taliad arbennig	299	0
Costau amrywiol	95	99
	<b>12,774</b>	<b>11,055</b>

**5. COSTAU A AD-DALWYD**

Fel y datgelwyd yn nodyn 1 y cyfrifon hyn, mae gofyn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth ddosrannu ei gostau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd oedd 99%. O 1 Ebrill 2002 ymlaen, trosglwyddwyd holl weithgareddau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth i Holbein Place, Llundain. O ganlyniad, mae'r costau o weithredu pob swyddfa arall yn cael eu had-dalu'n llawn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

## 6. PENSIYNAU

Tua diwedd 1999–00, cafodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ei chynnwys ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Bryd hynny, trosglwyddwyd yr holl weithwyr presennol, ac eithrio un aelod presennol o'r staff, i PCSPS. Roedd cyn weithwyr a oedd yn cael pensiwn neu yr oedd ganddynt bensiwn wedi'i ddiogelu, ac un aelod presennol o'r staff, yn aros yng Nghynllun Pensiwn NHMF. Rheolwyd y cynllun NHMF arall hwn gan Joint Superannuation Services (JSS). Mae PCSPS yn gynllun budd-daliadau aml-gyflogwr di-nawdd a ddiffinnir; ond ni all NHMF nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Gwnaed prisiad actiwaraid llawn ar 31 Mawrth 1999. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet; Civil Superannuation ([www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)).

Er y caiff y cynllun ei ddiffinio fel cynllun budd-daliadau, mae'r rhwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn daliad i PCSPS. Mae adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill a gaiff eu cynnwys yn PCSPS yn talu cost y pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogir ganddynt trwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail Gronedig. Ar gyfer 2002–03, talwyd cyfraniadau gweithwyr o £3,869 (2001–02: £6,164) i PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Bydd y cyfraddau'n aros yr un fath am y ddwy flynedd nesaf, yn unol ag ailbriso'r bandiau cyflog. Adolygir cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd ar ôl prisiad o'r cynllun llawn gan Actiwarir Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu manteision wrth iddynt Gronni, nid pan fydd y costau'n codi mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy PCSPS. O 1 Hydref 2002, gall staff sy'n aelodau o'r cynllun fod mewn un o dri chynllun budd-dal 'cyflog terfynol' a ddiffinnir ar sail statudol (clasurol, premiwm a chlasurol plws). Gall staff newydd sy'n cychwyn ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis ymaelodi â'r cynllun premiwm neu gallant ymuno â threfniant wedi'i seilio ar drefniant budd-ddeiliaid 'prynu arian' o ansawdd da lle ceir cyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gellir gweld y gwahaniaethau rhwng y cynlluniau ar wefan [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog fel a ganlyn:

Cyflog	% Cyfraniad pensiwn
£16,500 a llai	12%
£16,501 – £34,000	13.5%
£34,001 – £59,000	16.5%
£59,001 a throsodd	18.5%

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd un aelod o'r staff yn cael ei gynnwys gan y darpariaethau a wnaethpwyd gan y Gronfa o arweiniad a ddarperir gan JSS. Mae JSS yn darparu manylion i'r Gronfa ynghylch y darpariaethau y disgwylir i'r Gronfa eu gwneud bob blwyddyn i alluogi'r Gronfa i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn a fydd yn cronni dan y cynllun. Y tro diwethaf y rhoddwyd cyngor o'r fath oedd ar 31 Mawrth 1998. Mae'r cynllun yn gynllun budd-dal wedi ei ddiffinio. Telir taliadau i weithwyr y Gronfa sydd wedi ymddeol ac a oedd yn aelodau o gynllun JSS o adnoddau ariannol y Gronfa ac nid trwy JSS, gan nad oes ganddo unrhyw asedau. Gan bod JSS yn gynllun caeedig, dan y dull unedau rhagamcanedig, bydd y costau gwasanaeth presennol yn codi wrth i aelod o'r cynllun ddynesu at oedran ymddeol. Nid yw gweithwyr newydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ymuno â JSS ond yn hytrach maent yn ymuno â PCSPS.

Ym mis Mawrth 2003, cafodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gadarnhad gan Actwari'r Llywodraeth mai'r gost i PCSPS o drosglwyddo'r rhwymedigaethau pensiwn dyledus oedd £5.075 miliwn. Roedd y swm hwn lawer yn uwch, o £1.767 miliwn, na chyfanswm darpariaeth a grëwyd gan y Gronfa yng nghyfrifon y flwyddyn flaenorol – roedd rhan o'r ddarpariaeth yng nghyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (£360,000) a'r gweddill yng nghyfrifon Cronfa Dreftadaeth y Loteri (£2.948 miliwn). Ddiwedd mis Mawrth 2003, cytunodd yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ad-dalu i'r Gronfa y gost o drosglwyddo'r phensiwn i PCSPS am yr atebolwydd hwnnw sy'n ymwneud â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ar hyn o bryd, nid yw Actwari'r Llywodraeth wedi darparu rhaniad o'r £5.075 miliwn rhwng atebolwydd cymorth grant ac atebolwydd y Loteri. Amcangyfrifwn y dylid rhannu'r diffyg darpariaeth o £1.767 miliwn yn £190,000 i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a £1.577 miliwn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Felly, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cydnabod £1.577m ar gyfer setlo trosglwyddo pensiynau i PCSPS, trwy ei chyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn gyfredol.

	2002–03 £'000	2001–02 £'000
Darpariaeth ar 1 Ebrill	3,037	3,076
Cynnydd yn y ddarpariaeth i dalu am drosglwyddo i PCSPS	1,577	0
Taliad i PCSPS i fod yn gyfrifol am atebolwydd pensiynau	(4,525)	0
Creu darpariaeth i'r gyn Gyfarwyddwraig wrth ymddeol yn gynnar	107	0
Cynnydd mewn darpariaeth yn seiliedig ar gostau rhestr gyflogau	5	4
Trosglwyddiadau net i'r cynllun	0	1
Taliadau pensiwn a wnaethpwyd	(25)	(44)
<b>Darpariaeth ar 31 Mawrth</b>	<b>176</b>	<b>3,037</b>

## DARPARIAETH YMDDEOL YN GYNNAR I'R GYN GYFARWYDDWRAIG

Ymddeolodd cyn Gyfarwyddwraig NHMF ar 31 Mawrth 2003 yn 58 oed. Mae NHMF wedi cytuno talu ei chyfraniadau pensiwn nes bydd yn 60 oed, pan fydd PCSPS yn talu budd-daliadau pensiwn. Disgwylir y bydd hyn yn costio £107,815 (y mae elfen HLF yn werth £106,736).

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
Nodiadau i'r Cyfrifon  
am y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2003

**7. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL**

	Gwelliannau i eiddo ar brydles fer £'000	Offer swyddfa £'000	Ffitiadau swyddfa £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2002	990	1,864	724	3,578
Ychwanegiadau	1,088	15	0	1,103
Ail-ddyrannu asedau cyfredol	0	(27)	0	(27)
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>2,078</b>	<b>1,852</b>	<b>724</b>	<b>4,654</b>
Dibrisiad ar 1 Ebrill 2002	275	981	723	1,979
Tâl am y flwyddyn	205	240	1	446
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>480</b>	<b>1,221</b>	<b>724</b>	<b>2,425</b>
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2002	715	883	1	1,599
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>1,598</b>	<b>631</b>	<b>0</b>	<b>2,229</b>

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerth yr asedau sefydlog ac maent yn fodlon nad oedd eu gwerth, ar 31 Mawrth 2003, yn llai na'u gwerth llyfr net a ddangoswyd yn y cyfrifon. Ni ddaliwyd unrhyw asedau o dan brydlesau cyllid. Mae gwerth asedau sefydlog yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2003, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth o bwys mewn gwerthoedd cost hanesyddol. Felly, ni wnaethpwyd unrhyw addasiad yn y cyfrifon hyn i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol.

Mae'r gwelliannau i eiddo ar brydles fer yn cynnwys costau addasu ac adnewyddu eiddo Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cael eu dal o dan brydlesau gweithredu.

**8. DYLEDWYR**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	1,183	2,213
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	749	247
Benthyciadau staff	38	42
	<b>1,970</b>	<b>2,502</b>

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd un benthyciad i sefydliad treftadaeth heb ei dalu. Benthyciad o £2,067,500 oedd hwn a wnaed ym mis Mehefin 1999 i'r Academi Gerdd Frenhinol (yr 'Academi'). Mae'r benthyciad hwn i'w ad-dalu mewn saith taliad blyneddol, a chafwyd y trydydd o'r rhain yn ystod y flwyddyn, gan adael gweddill o £1,182,500 i'w dalu. Nid oes llog yn daladwy ar y benthyciad, oni bai bod telerau ad-dalu yn cael eu torri. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd ail benthyciad, o £735,000, heb ei dalu gan Phoenix Trust. Roedd y benthyciad yn un di-log ac nid yw i gael ei ad-dalu tan 2011. Setlwyd y benthyciad yn ystod y flwyddyn gyda thaliad o £536,000. Mae Ymddiriedolwyr NHMF wedi buddsoddi'r arian hwn yn NLDF ac yn credu y bydd gwerth y taliad yn cyfateb o leiaf i werth enwol y benthyciad ar ei ddyddiad ad-dalu gwreiddiol yn 2011. Er bod yr Ymddiriedolwyr yn dileu'r gwahaniaeth o £199,000 rhwng y benthyciad a'r swm a gafwyd, maent yn credu nad yw CDL wedi dioddef unrhyw golledion mewn gwirionedd (gweler hefyd nodyn 17).

Swm y benthyciad sydd ar ôl, ac sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn, oedd £887,500 (31 Mawrth 2002; £1,917,500).

**9. BUDDSODDIADAU**

Symudiadau mewn gweddillion yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Cenedlaethol:

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Cost gyfredol ar 1 Ebrill 2002	993,951	929,916
Incwm a gafwyd o'r Loteri Cenedlaethol	229,460	276,022
Nawdd a dynnwyd i lawr	(264,828)	(262,040)
Adenillion buddsoddi	66,741	56,203
Colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau	(5,277)	(6,150)
<b>Cost gyfredol ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>1,020,047</b>	<b>993,951</b>

Nid oes atebolrwydd treth ar enillion a wireddwyd gan NHMF. Caiff yr arian hwn ei fuddsoddi gan y Comisiynwyr ar gyfer Lleihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu derbynadau at y gweddill sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr NHMF unrhyw reolaeth dros bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisiau cyfrifyddu yn cynnwys gwybodaeth bellach am y mater hwn.

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
Nodiadau i'r Cyfrifon  
am y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2003

**10. CREDYDWYR: CYFANSYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Credydwy'r gweithredol	813	1,193
Credydwy'r eraill, gan gynnwys treth a nawdd cymdeithasol	168	121
Darpariaethau (gweler nodyn 17)	100	0
Croniadau ac incwm wedi ei ohirio	1,138	2,504
	<b>2,219</b>	<b>3,818</b>

Ni sicrhawyd unrhyw atebolrwydd gan y Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol.

**11. YMRWYMIADAU GRANT**

**YMRWYMIADAU CADARN**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	561,611	528,047
Trosglwyddiadau o ymrwymiadau ysgafn	368,336	278,229
Dad-ymrwymiadau	(10,507)	(3,116)
Ymrwymiadau a dalwyd	(245,084)	(241,549)
<b>Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>674,356</b>	<b>561,611</b>

**YMRWYMIADAU YSGAFN**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	503,880	463,329
Ymrwymiadau ysgafn a wnaed	367,200	350,702
Dad-ymrwymiadau ysgafn	(19,303)	(31,922)
Trosglwyddiadau i ymrwymiadau cadarn	(368,336)	(278,229)
<b>Gweddill a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>483,441</b>	<b>503,880</b>

Mae'r gweddill ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r cyfansymiau sy'n ddyledus i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

**YMRWYMIADAU CADARN**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Mewn blwyddyn	296,477	256,548
Mewn dwy i bum mlynedd	377,879	305,063
Mewn mwy na phum mlynedd	0	0
	<b>674,356</b>	<b>561,611</b>

**12. YMRWYMIADAU**

Mae ymrwymiadau blynyddol Cronfa Dreftadaeth y Loteri o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
<b>Eiddo ar brydles fer</b>		
– yn dod i ben cyn pen blwyddyn	0	19
– yn dod i ben cyn pen dwy i bum mlynedd	0	0
– yn dod i ben wedi hynny	1,140	1,024
	<b>1,140</b>	<b>1,043</b>
<b>Prydlesau gweithredol eraill</b>		
– yn dod i ben cyn pen blwyddyn	0	24
– yn dod i ben cyn pen dwy i bum mlynedd	93	124
– yn dod i ben wedi hynny	0	6
	<b>93</b>	<b>154</b>

Nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer; nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol  
Nodiadau i'r Cyfrifon  
am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2003

**13. NODIADAU AR Y DATGANIAD LLIF ARIAN**

**A) CYSONI'R DIFFYG GWEITHREDOL AG ALL-LIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn cronfeydd	(89,430)	34,480
Llai: llog a gafwyd	(479)	(660)
Ychwanegu eitemau heblaw arian yn ôl:		
– dibrisiad	446	162
– ailddyrranu asedau cyfredol	27	0
– gostyngiad mewn darpariaethau eraill	(2,861)	(39)
– cynnydd yn y gronfa ymrwymadau grant wrth gefn	112,745	33,564
– cynnydd yn y gweddill yn NLDF cyn colledion heb eu gwireddu	(31,373)	(70,185)
– colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau yn NLDF	5,277	6,150
Gostyngiad mewn dyledwyr di-log	572	167
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr di-gyfalaf	(1,074)	1,592
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol	(6,150)	5,231

**B) GWARIANT CYFALAF**

	2002-03 £'000	2001-02 £'000
Taliadau i sicrhau asedau sefydlog diriaethol	1,627	568

**C) DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD NET**

	Ar 1 Ebrill 2002 £'000	Llif arian £'000	Ar 31 Mawrth 2003 £'000
Arian yn y banc	8,623	(7,339)	1,284

**14. ADENILLION TYBIANNOL AR GYFALAF**

Yn ôl rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth, mae gofyn i gyrff cyhoeddus anadrannol gyfrifo cost dybiannol ar gyfer cyfalaf, a dylid datgelu hynny yn y cyfrifon incwm a gwariant. Caiff Cronfa Dreftadaeth y Loteri ei hariannu'n gyfan gwbl â nawdd o'r Loteri Cenedlaethol ac mae cost gyfalaf o 0% ar hwnnw. Mewn blynyddoedd blaenorol, defnyddiwyd cost gyfalaf o 6%.

**15. TRAFODION CYRFF CYSYLLTIEDIG**

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol dan nawdd yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ystyrir bod yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd amryw o drafodion materol, ac eithrio dyfarnu grantiau, rhwng Cronfa Goffa'r Dreftadaeth a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, a'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac endidau eraill yr ystyrir bod yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn adran noddi iddynt:

Cyngor Celfyddydau Lloger  
Comisiwn y Mileniwm  
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

English Heritage  
Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol  
South East Museums Agency

Yn ogystal, gwelwyd nifer o drafodion materol rhwng Cronfa Goffa'r Dreftadaeth a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, ac adrannau eraill y Llywodraeth. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn ag endidau sy'n ystyried mai Gweithgor yr Alban yw eu prif adran (sef Historic Scotland a Scottish Natural Heritage); y Cynulliad Cenedlaethol (sef Cadw); Cyllid y Wlad (sef y Swyddfa Brisio); Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer y Rhanbarthau ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (sef English Nature a'r Asiantaeth Cefn Gwlad); a Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau mewn ceisiadau am grantiau ac mewn unrhyw berthynas fasnachol â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ac yn eithrio'u hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu perthnasol ar gyfer grantiau yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr am grantiau, bydd Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad na fyddai'n cyd-fynd â'u cyfrifoldebau fel un o Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae trefniadau cyfatebol i staff roi gwybod am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro posibl o ran buddiannau. Mae'r Gofrestr o Fuddiannau'r Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio trwy gysylltu ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

## Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol Nodiadau i'r Cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2003

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan wyth o Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fuddiant mewn pymtheg corff oedd yn cael grant Loteri. Hefyd, roedd gan un Ymddiriedolwr fuddiant mewn sefydliad treftadaeth oedd wedi cael benthyciad gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Nid oedd unrhyw drafodion masnachol nac unrhyw drafodion grant eraill lle'r oedd gan Ymddiriedolwyr fuddiant neu ddylanwad o bwys. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon nad oedd posibilrwydd mewn unrhyw achos o'r fath y gallai Ymddiriedolwyr sicrhau enillion ariannol personol. Yn yr un modd, roedd gan 23 o aelodau pwyllgor fuddiant mewn 46 corff lle'r oedd grantiau Loteri wedi'u rhoi. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon nad oedd posibilrwydd mewn unrhyw achos o'r fath y gallai'r aelodau pwyllgor sicrhau enillion ariannol personol. Yn ychwanegol, roedd un aelod o'r pwyllgor yn bartner mewn cwmni a oedd wedi cael contract gwerth £14,765 gan corff a oedd wedi cael grant. Nid oedd gan yr aelod pwyllgor unrhyw gysylltiad â'r cais am grant a'r penderfyniad i'w ddyfarnu, a chafodd y contract ei roi ar ôl ymarfer tendro cystadleuol. Mae Ymddiriedolwyr yn cydnabod y bydd medrau ac arbenigedd aelodau pwyllgor yn arwain o bryd i'w gilydd at gael gwaith gan ymgeiswyr grant. Cyn belled ag yr enillir y contractau hyn drwy dendro cystadleuol, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon y gallant barhau.

Nid oedd gan yr un aelod staff unrhyw gysylltiad ag unrhyw grantiau a wnaed gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn ystod y flwyddyn.

### 16. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae FRS 13, 'Deilliadau ac Offerynnau Ariannol eraill', yn gofyn am ddatgelu swyddogaeth offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y peryglon y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn eu hwynebu wrth iddi gyflawni ei swyddogaeth.

#### PERYGLON HYLIFEDD

Yn 2002–2003, roedd £229,460,000 (79%) o incwm Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn deillio o'r Loteri Cenedlaethol. Roedd gweddill yr incwm yn deillio o adenillion buddsoddi o'r gweddill sy'n cael ei ddal gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Cenedlaethol, sef £61,464,000 (21%), a llog banc ac incwm amrywiol o £535,000 (0%). Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn wynebu problemau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon bod ganddynt ddigon o adnoddau hylifedd yn NLDF ac yn y banc i dalu am yr holl ddyfarniadau a wneir yn y flwyddyn.

#### PERYGLON CYFRADDAU LLOG

Buddsoddir asedau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Cenedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cyfyng o asedau perygl isel fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr reolaeth dros fuddsoddi'r arian hyn. Ar ddyddiad y fantolen, gwerth buddsoddiadau NLDF ar y farchnad oedd £1,020m. Yn ystod y flwyddyn, yr adenillion cyfartalog ar y buddsoddiadau hyn oedd 6.36%. Caiff gweddillion ariannol, sy'n cael eu tynnu o NLDF i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, eu cadw mewn cyfrifon banc cyfradd newidiol hawdd cael atynt, a oedd â chyfradd log gyfartalog o 3.34% yn y flwyddyn. Y gweddill ariannol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.3m. Cred yr Ymddiriedolwyr nad yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn wynebu peryglon sylweddol o ganlyniad i gyfraddau llog.

#### PERYGL ARIAN TRAMOR

Nid yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn wynebu unrhyw beryglon o ganlyniad i arian tramor.

### 17. COLLEDION A THALIADAU ARBENNIG

Fel y crybwyllwyd yn nodyn 8, mae'r Ymddiriedolwyr wedi dileu'r gwahaniaeth o £199,000 rhwng benthyciad o £735,000 a roddwyd i Phoenix Trust a'r £536,000 a gafwyd fel taliad y benthyciad, a oedd i gael ei ad-dalu yn 2011 yn wreiddiol. Ceisiwyd caniatâd, ac fe'i rhoddwyd, gan DCMS mewn cysylltiad a'r trafodiad hwn a'r dilead a ddilynodd.

Yn ychwanegol, mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer taliad arbennig o £100,000 i dderbynydd grant o ganlyniad i ddiffygion wrth brosesu ei daliad grant. Ceisiwyd cymeradwyaeth gan DCMS.

## DANGOSYDDION DOSBARTHAD GRANTIAU – 12 MIS YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2003

Dangosydd a Tharged	31 Mawrth 2003	31 Mawrth 2002
1. Bydd 50% o gyfanswm gwerth dyfarniadau yn mynd i grantiau dan £1m	39.2%	42.3%
2. Ni fydd mwy na 25% o gyfanswm gwerth dyfarniadau yn mynd i grantiau o £5 a mwy	33.9%	18.0%
3. Cynnal lefel bresennol o wario ar Arian i Bawb	£4.8m	£3.6m
4. Dylai nifer y prosiectau sy'n cael cefnogaeth fod yn fwy na:		
Grantiau treftadaeth – 370;	463	775
Eich Treftadaeth – 370;	390	97
Arian i Bawb – 1,500;	913	1,105
Menter Treftadaeth Treflun – 17;	21	76
Parciau – 25;	43	85
RPOW – 130;	207	dd/b
Tirwedd – 8;	2	dd/b
Menter Treftadaeth Leol – 270;	208	267
5. Bydd canran y rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf ar raglenni penodol yn fwy na:		
Arian i Bawb – 50%;	dd/b	dd/b
Menter Treftadaeth Leol – dim targed wedi'i osod;	93%	97%
Eich Treftadaeth – 30%;	87%	82%

6. Ceisiadau o ardaloedd blaenoriaeth yn cyrraedd cyfartaledd y pen ar gyfer pob rhanbarth yn ystod bywyd y Cynllun Strategol.

7. Cyfradd llwyddiant yn ardaloedd blaenoriaeth yn gyfartal ag ardaloedd eraill yn y DU neu'n well.

8. Adfocatiaeth.  
I hyrwyddo gwell gwerthfawrogiad o werth a phwysigrwydd treftadaeth ar gyfer ein lles a'n syniad o hunaniaeth yn y dyfodol.

### SYLWEBAETH AR DDOSBARTHU GRANTIAU

Hon yw blwyddyn gyntaf Cynllun Strategol newydd, ac mewn rhai achosion nid oes data cymharol o flynyddoedd blaenorol.

#### DANGOSYDD 1

Unwaith eto, methwyd â chyrraedd ein targed, gan wneud iawn am y diffyg drwy ymrwymo i mwy o grantiau o fwy na £1m.

#### DANGOSYDD 2

Gan osod yr ymrwymidiadau tymor hirach i Tyntesfield a Chôr y Cewri o'r neilltu, roedd y ffigwr a ymrwymwyd i brosiectau mawr ar y targed o £75m.

#### DANGOSYDD 3

Wedi rhagori arno, a gwariant ar Arian i Bawb wedi cynyddu ers y llynedd.

#### DANGOSYDD 4

Mae pob un namyn tri o'r targedau yn y Cynllun Strategol wedi'u cyrraedd neu ragori arnynt. Nid yw Arian i Bawb wedi cyrraedd ein niferoedd disgwylidig oherwydd y gronfa ar y cyd a sefydlu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sydd wedi cyfrannu at rai o'r grantiau amgylcheddol a oedd yn cael eu cyfrif fel rhai treftadaeth gynt. Mae ffigyrau Menter Treftadaeth Leol wedi gostwng yn is na nifer y dyfarniadau yr oedd disgwyl iddynt gael eu cyflwyno, er bod y gyfradd llwyddiant bellach wedi cynyddu i 84% ar y cyfan. Roedd dau brosiect Tirwedd yn ystod 2002–03.

#### DANGOSYDD 5

Bwriadwyd fel mesur o'r graddau y byddai ein rhaglenni grant bychain yn denu cynulleidfaoedd newydd. Rydym bron â bod yn bendant y bydd y cyfraddau hyn yn gostwng wrth i ni symud drwy gyfnod y Cynllun Strategol.

#### DANGOSYDD 6

Ni fodlonwyd gan unrhyw ranbarth na gwlad. Y gorau – Gogledd Ddwyrain Lloegr (bodlonwyd mewn 67% o'r ardaloedd blaenoriaeth). Data ddim ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol. Pob tîm wedi cychwyn mynd i'r afael â'r ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer gwaith datblygu a bydd y ffigwr yn Gronedig dros fywyd y Cynllun Strategol.

#### DANGOSYDD 7

Ni fodlonwyd gan unrhyw ranbarth na gwlad. Y gorau – Gorllewin Canolbarth Lloegr (bodlonwyd mewn 67% o ardaloedd blaenoriaeth). Data ddim ar gael ar gyfer Arian i Bawb a Menter Treftadaeth Leol. Mae'r gyfradd llwyddiant ar gyfer gwaith datblygu mewn ardaloedd blaenoriaeth yn fesur o'r graddau yr ydym yn annog ceisiadau a gefnogir i ddod yn eu blaen. Bydd y ffigyrau hyn hefyd yn Gronedig yn ystod bywyd y Cynllun Strategol.

#### DANGOSYDD 8

Wedi'i fodloni. Dangosodd dadansoddiad gan y cyfryngau dros ddwy flynedd, hyd fis Rhagfyr 2002, bod tuedd gynyddol yn gyffredinol mewn maint ac mewn sylw yn seiliedig ar faterion, yn arbennig o fewn cyfryngau darlledu a rhanbarthol, a gwnaed cychwyn cadarnhaol wrth ddsbarthu negeseuon SP2 o fis Ebrill 2002. Bu i ni gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus a'u cynnal i hyrwyddo trafodaeth ar faterion treftadaeth, gan gynnwys y digwyddiadau Mis Treftadaeth Du/Treftadaeth Asiaidd a gynhaliwyd yn Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr, a 12 digwyddiad budd-ddeiliaid o amgylch y DU. O ganlyniad i astudiaeth feincnodi a gomisiynwyd i asesu agweddau tuag at dreftadaeth a chefnogaeth iddi ymysg arweinwyr barn, gwnaed adolygiad targedu cyhoeddiadau a chynyddwyd ein gweithgareddau adfocatiaeth. Bydd agweddau pobl yn cael eu mesur eto yn ystod 2003.

## DANGOSYDDION LEFEL GWASANAETH

Dangosydd a Tharged	Mawrth 2003 (Mawrth 2002)
1. Bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf allweddol cyn pen tri mis ar ôl eu derbyn a bydd y rhai sy'n methu yn cael gwybod bryd hynny.	<b>82%, cyfartaledd o 72 diwrnod</b> (78%, cyfartaledd o 77 diwrnod)
2. Cyfartaledd yr amser rhwng cael cais a gwneud penderfyniad:	
i) Rhaglen grantiau treftadaeth Llai nag £1 filiwn a cham un – chwe mis calendr;	<b>6.6 mis, cyrhaeddodd 29% y targed</b> (7.4 mis)
ii) Ail gam – pedwar mis calendr;	<b>5.5 mis, cyrhaeddodd 44% y targed</b> (5.1 mis)
iii) Eich Treftadaeth – tri mis calendr;	<b>3.5 mis, cyrhaeddodd 53% y targed</b> (2.9 mis)
iv) Menter Treftadaeth Treflun – bedwar mis calendr;	<b>4.9 mis, cyrhaeddodd 13% y targed</b> (3.7 mis)
v) RPOW – chwe mis calendr;	<b>4.4 mis</b> (dd/b)
vi) Menter Parciau Cyhoeddus – chwe mis;	<b>9.2 mis, cyrhaeddodd 58% y targed</b> (12.3 mis)
vii) Partneriaethau Tirlun – chwe mis calendr;	<b>7.1 mis, cyrhaeddodd 0% y targed</b> (dd/b)
viii) Menter Treftadaeth Leol – tri mis calendr;	<b>2.4 mis</b> (2.5 mis)
ix) Arian i Bawb – tri mis calendr;	<b>1.9 mis</b> (2.1 mis)
3. Caiff penderfyniadau a chrynodebau polisi eu gosod ar wefan CDL cyn pen 10 diwrnod gweithio ar ôl y cyfarfod.	<b>Pedwar diwrnod yn well</b> (Dau ddiwrnod yn well)
4. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael contract cyn pen 35 diwrnod gweithio.	<b>80%, 31 diwrnod ar gyfartaledd</b> (71.7%, 39 diwrnod ar gyfartaledd)
5. Bydd grantiau'n cael eu talu i'r ymgeisydd, ar gyfartaledd, cyn pen 15 diwrnod ar ôl cael y cais am daliad.	<b>Gweithredoedd: 10 diwrnod, cyrhaeddodd 81% y targed</b> (10 diwrnod) <b>Cyllid: 3 diwrnod</b> (3 diwrnod) <b>Cyfanswm: 13 diwrnod</b> (13 diwrnod)
6. Bydd pob achos a gyfeirir at y Pwyllgor Cwynion ac Adolygu yn cael ei benderfynu cyn pen pedwar mis.	<b>Dim cyfarfodydd eleni</b> (100%)
7. Bydd arolwg o geisiadau grant yn dangos cyfradd bodlonrwydd o 70% â gwasanaethau CDL (ar gyfer asesu a monitro).	<b>Asesu a monitro 68%</b> (67% a 79%)
8. Bydd cost yr uned o brosesu cais am grant, ac eithrio cost monitro a gwerthuso ar ôl gwneud penderfyniad, yn llai na £2,400 ar gyfer pob cais.	<b>£2,366 (£4,931 ac eithrio achosion a brosesir yn allanol)</b> (£2,332 (£4,451))

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD CORFFORAETHOL

### DANGOSYDD 1

Er ein bod o dan y targed, mae'r ganran a aseswyd mewn 3 mis, a'r amser cyfartalog a gymerwyd, wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.

### DANGOSYDD 2

Er na chyrraeddwyd yr un o'r targedau mewnol, rydym wedi lleihau'r amser prosesu cyfartalog ar gyfer Grantiau Treftadaeth dan £1m a cham un dros £1m: mae hi wedi cymryd ychydig mwy o amser i fynd i'r afael â cheisiadau cam dau. Y prif reswm am yr amser prosesu hir, yn y ddau achos, yw cymhlethdod rhai o'r cynlluniau yr ydym yn eu hariannu, a'r angen i sicrhau canlyniad cynaliadwy o ansawdd uchel.

Rydym hefyd wedi dechrau lleihau'r amser prosesu ar gyfer cynlluniau Parciau Cyhoeddus. Pennwyd y rhaglen Menter Treftadaeth Treflun fel rhaglen grynodedig ychydig y tu allan i'r raddfa amser ddisgwyliedig ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae amser gwneud penderfyniadau ar gyfer grantiau Eich Treftadaeth wedi cynyddu eleni, ac maent bellach ar gyfartaledd tua 15 diwrnod y tu allan i'r targed o 3 mis. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn nifer yr achosion dan y rhaglen hon eleni, a'r anhawster wrth ddelio â'r holl brosiectau a gyflwynir drwy broses asesu ysgafnach.

### DANGOSYDD 3

Wedi rhagori amo'n sylweddol.

### DANGOSYDD 4

Rydym wedi cyrraedd y targed o 80% o osodwyd fel carreg filltir ar y ffordd i 100%, yn ogystal â lleihau'n sylweddol yr amser cyfartalog i ddelio â cheisiadau. O eleni ymlaen, rydym am gynnwys y contract mewn mwy o'n pecynnau cais, felly, bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddileu ymhen amser.

### DANGOSYDD 5

Mae amseroedd talu wedi parhau'n debyg iawn i'r llynedd ac o fewn y targed.

### DANGOSYDD 7

Mae'r arolwg a gynhaliwyd eleni o asesiad yn darparu ffigwr o 68%, sydd yn welliant bychan ar ffigwr 2001–02. Dangosodd ein harolwg o gwsmeriaid y mae eu prosiectau'n cael eu monitro gyfradd fodlonrwydd o 81% yn gynnar yn 2002–03, ac mae hyn yn y broses o gael ei ailadrodd.

### DANGOSYDD 8

Rydym newydd gyrraedd y targed hwn mewn blwyddyn sydd wedi gweld ein sylfaen costau yn codi o ganlyniad i agor swyddfeydd newydd yn Lloegr.

### MONITRO

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae gwaith ar fonitro achosion ar ôl dyfamu grantiau'n cael ei wneud ar lefel uchel. Roedd cyfartaledd o 2,800 prosiect gweithredol yn cael eu monitro, 1,300 ohonynt gan staff a 1,500 ohonynt gan ymgynghorwyr allanol.

Rydym yn parhau i adolygu'r modd mae cyrff a sefydliadau sydd eisoes wedi cael grantiau gennym yn bodloni rhwymedigaethau cytundebol sy'n ymwneud â'u dyfarniadau. Mae gwaith pellach wedi'i wneud ar y fframwaith ar gyfer gwerthuso'n prosiectau a'n cynlluniau targed. Bydd y gwaith hwn yn arwain at wella'r ffordd rydym yn casglu gwybodaeth a chanlyniadau ar effaith tymor hir ein dyfarniadau grant.

Yn ystod y flwyddyn, mae cyfres o ddogfennau monitro wedi cael eu datblygu i gyd-fynd â nodweddion penodol y cynlluniau unigol wedi'u targedu rydym yn eu rheoli. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag Asiantaethau a phartneriaid eraill ar effeithiolrwydd a symleiddio monitro cynlluniau sy'n cael eu rhedeg ar y cyd a monitro dyfarniadau grant ganddynt i bartion eraill.

Fel rhan o'n System newydd o Reoli Digwyddiadau Grant (GEMS) mae proses wedi ei chlustnodi i gofnodi a dadansoddi ansawdd y gwasanaethau monitro a ddarperir gan sefydliadau allanol. Bydd y broses hon yn adlewyrchu'r cyfleuster sy'n cael ei ddefnyddio i asesu ar hyn o bryd.

I gefnogi'r broses o fonitro prosiectau mawr, cymhleth, mae proses adolygu cyfoedion wedi ei diffinio. Bydd y broses hon yn helpu'r rheiny sy'n cael grantiau gennym i adolygu effeithiolrwydd eu gwaith datblygu cyn cyflwyno cam dau a'u cynllun busnes cyn cwblhau eu prosiect, er mwyn nodi unrhyw ddiffygion posibl a allai effeithio ar gynladwyedd tymor hir y prosiect wedi iddo gael ei gwblhau.

### ARFARNU

Mae CDL yn arfarnu ei weithgareddau ar dair lefel: arfarnu pob prosiect unigol sydd wedi'i gwblhau; arfarnu rhaglenni ac arfarnu effaith gyffredinol nawdd CDL. Caiff Arfarniad Safonol ei gynnal ar ffurf holiadur hunanasesu yn delio â phob prosiect sydd wedi'i gwblhau, beth bynnag fo'i faint a'i gwmpas.

Dangosa canlyniadau eleni bod 69.8% o brosiectau sydd wedi'u cwblhau yn cynnig buddiannau addysgol (er enghraifft, drwy gael mwy o ymweliadau ysgol, cyhoeddiadau addysgol neu waith gyda grwpiau diddordeb arbennig). Mae 95% wedi sicrhau mynediad corfforol a deallusol gwell ac mae 98.2% yn cynnig buddiannau i'r gymuned leol. Mae 99% wedi cyflawni yn erbyn o leiaf un o flaenoriaethau Cynllun Strategol newydd CDL.

Mae arfarniadau rhaglen yn cynnwys arfarnu'r Fenter Treftadaeth Treflun yn y tymor hir, dros gyfnod o ddeng mlynedd gan ddim ym Mhrifysgol Oxford Brookes. Cafwyd adroddiad cyfamserol o'r naw cynllun cam cyntaf, yn dangos rhai canlyniadau addawol, er bod rhan fwyaf y prosiectau yn dal i fod yn eu cyfnod cynnar. Bydd crynodeb o'r canlyniadau a'r fethodoleg yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2003. Bydd yr arfarniad llawn cyntaf o bob un o'r 17 astudiaeth achos yn cael ei gynnal yn 2004–05 yn erbyn astudiaethau gwaelodlin a fydd yn cael eu sefydlu ar gychwyn yr arfarniad.

Cynhaliwyd arfarniad o'r Rhaglen helaeth Amgueddfeydd ac Archifau (MAP) a'r Rhaglen Parciau Trefol eleni. Adroddwyd y canlyniadau i'r Bwrdd a bydd yn cael ei gyhoeddi'n allanol yn

ystod 2003 drwy gyhoeddiadau, sylw yn y wasg a gweithdai arfer gorau.

Mae'r arfarniad o'r peilot ar gyfer y rhaglen Gwreiddiau Ifanc yn dangos bod y cynllun peilot wedi llwyddo i gyflawni nodau'r cynllun, gan gynnwys cael plant i gymryd rhan weithgar yn natblygu a rheoli prosiectau; cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol; dyfeisgarwch a chreadigrwydd ac ansawdd dysgu am dreftadaeth. Ychwanegodd yr arfarniad at ddatblygu rhaglen genedlaethol Gwreiddiau Ifanc ac mae arfarniad o'r rhaglen genedlaethol wedi cael ei gomisiynu.

Mae ein rhaglenni a reolir yn allanol – Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli, Menter Treftadaeth Leol a Arian i Bawb – wedi elwa o arfarniad parhaol sy'n ychwanegu at y ffordd y caiff y rhaglenni hyn eu cyflwyno. Yn arbennig, rydym wedi cymryd camau i symleiddio gweithdrefnau a gwella canolbwyntio ar gwsmeriaid. Rydym yn gobeithio cyflwyno gwelliannau pellach yn ystod 2003.

## 1. DAN ERTHYGLAU 5 (1), 5 (2) A 5 (3) GORCHYMYN 2001 DEDDF CYSYLLTIADAU HILIOL 1976 (DYLETSWYDDAU STATUDOL), MAE GANY GRONFA DDYLETSWYDD I FONITRO, DRWY GYFEIRIO AT Y GRWPIAU HILIOL Y MAENT YN PERTHYN IDDYNT, AC I ADRODD YN FLYNYDDOL AR:

- a) nifer:
  - i) staff mewn swyddi; ac
  - ii) ymgeiswyr am swyddi, hyfforddiant a dyrchafiad, o bob grŵp o'r fath; a
- b) nifer y staff o bob grŵp:
  - i) sy'n cael hyfforddiant
  - ii) sy'n elwa neu'n dioddef o ganlyniad i'w weithdrefnau asesu perfformiad
  - iii) sy'n cymryd rhan mewn gweithdrefnau cwyno
  - iv) sy'n destun gweithdrefnau disgyblu; neu
  - v) sy'n rhoi'r gorau i weithio i'r Gronfa.

## 2. CANLYNIADAU MONITRO A GYNHALIWDYD YN YSTOD 2002–03.

### 2.1 STAFF MEWN SWYDDI AR 31 MAWRTH 2003.

#### TARDDIAD ETHNIG A RHYW POB GWEITHIWR AR 31 MAWRTH 2003

Tarddiad Ethnig	Pob gweithiwr		Merched		Dynion	
	Cyfanswm	% o'r cyfanswm	Cyfanswm	% o'r cyfanswm	Cyfanswm	% o'r cyfanswm
Affricanaidd	2	0.8%	1	0.4%	1	0.4%
Affricanaidd a Chroenwyn	1	0.4%	1	0.4%		
Unrhyw Tsieineaidd	2	0.8%			2	0.8%
Unrhyw un arall	8	3.3%	8	3.3%		
Bangladeshi	2	0.8%	2	0.8%		
Caribiaidd	5	2.1%	5	2.1%		
Indiaidd	3	1.2%	2	0.8%	1	0.4%
Asiaidd arall	1	0.4%			1	0.4%
Ddim yn gwybod	1	0.4%	1	0.4%	0	
Croenwyn	218	89.7%	146	60.1%	72	29.6%
<b>Cyfanswm</b>	<b>243</b>		<b>166</b>	<b>68.3%</b>	<b>77</b>	<b>31.7%</b>
<b>Cyfanswm (lleiafrif ethnig)</b>	<b>24</b>	<b>9.9%</b>	<b>19</b>	<b>7.8%</b>	<b>5</b>	<b>2.1%</b>

### 2.2 CEISIADAU AM WAITH YN 2002–03

#### TARDDIAD ETHNIG YMGEISWYR AM SWYDDI

Ceisiadau a ddychwelwyd yn unig, am 18 swydd a hysbysebwyd yn allanol yn ystod 2002–03

Tarddiad Ethnig	Ddim yn gwybod	Ddim yn groenwyn	Croenwyn
Gradd C	103	2	7
Gradd D	237	24	47
Gradd E	77	6	33
Gradd F	26	43	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>443</b>	<b>75</b>	<b>90</b>

Sylwer: roedd y data a gasglwyd am swyddi gwag eraill yn ystod 2002–03 yn anghyflawn. Mae camau wedi'u cymryd i gynnwys recriwtio i gyd yn 2003–04, ac i wella darpariaeth gwybodaeth ymgeiswyr pan fyddant yn gwneud cais.

### 2.3 CEISIADAU AM HYFFORDDIANT, A NIFER Y STAFF A GAFODD HYFFORDDIANT

Yn ystod 2002–03, gwnaed 48 cais llwyddiannus am hyfforddiant allanol gan weithwyr croenwyn, ac 11 cais llwyddiannus gan weithwyr mewn grwpiau hiliol eraill. Cofnododd cronfa ddata'r Gronfa ar hyfforddiant a datblygiad mewnol bod 956 o ddigwyddiadau hyfforddi yn ystod 2002–03 ar gyfer gweithwyr croenwyn, a 105 o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer gweithwyr o'r grwpiau hiliol eraill.

### 2.4 CEISIADAU AM DDYRCHAFIAD MEWNOL

Yn ystod 2002–03, cafodd 12 gweithiwr croenwyn ac un gweithiwr ethnig eu dyrchafu'n fewnol.

**2.5 CANLYNIAD GWEITHDREFNAU ASESU PERFFORMIAD (AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2003)  
TARDDIAD ETHNIG GWEITHWYR, YN ÔL Y GYFRADD WERTHUSO AR GYFER 2002-03.**

Tarddiad Ethnig	Rhagorol	Da	Derbyniol	Anfoddhaol
Affricanaidd			2	
Affricanaidd a Chroenwyn		1		
Unrhyw Tsieineaidd	2			
Unrhyw arall	2	4	1	1
Bangladeshi		1		
Caribiaidd		4	1	
Indiaidd		1	2	
Asiaidd arall			1	
Ddim yn gwybod		3		
Croenwyn	20	158	22	2
<b>Cyfansymiau</b>	<b>25</b>	<b>175</b>	<b>25</b>	<b>3</b>

Sylwer: yn seiliedig ar ddata a oedd ar gael 31 Mai 2003.

**2.6 NIFER GWEITHWYR A OEDD YN RHAN O  
WEITHDREFNAU CWYNO YN YSTOD 2002-03**

Dim

**2.7 NIFER GWEITHWYR A OEDD YN DESTUN  
GWEITHDREFNAU DISGYBLU YN YSTOD 2002-03**

Gweithwyr croenwyn: 2

Gweithwyr o bob grŵp ethnig arall: 0

**2.8 NIFER GWEITHWYR A ADAWODD Y GRONFA YN  
YSTOD 2002-03**

Gweithwyr croenwyn: 31

Gweithwyr o bob grŵp ethnig arall: 2

**3. DYLETSWYDDAU PENODOL**

Mae'r dyletswyddau penodol y mae'r Gorchymyn yn eu gosod ar gyflogaeth gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y Gronfa, wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith ar gyfer mesur cynnydd o ran cyfle cyfartal mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Maent hefyd wedi'u hanelu at ddarparu gwybodaeth fonitro i lywio mentrau a allai arwain at weithlu sy'n cynrychioli'n well y cymunedau y maent yn seiliedig ynddynt ac y maent yn eu gwasanaethu.

Eleni, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu camau cadarnhaol yn ei hysbysebion recriwtio i annog pobl o leiafrifoedd ethnig i geisio am swyddi, gan gydnabod nad yw ei weithlu yn cynnig cynrychiolaeth eang o amrywiaeth leol neu genedlaethol.

Mae'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb wedi sefydlu rhaglen hyfforddi ar gydraddoldeb mewn gwaith ac yn swyddogaethau ehangach y Gronfa, a fydd yn cael ei chyflwyno'n ddyfal i'r holl staff eleni ac yn rheolaidd yn y dyfodol.

# Ymddiriedolwyr, Pwyllgorau a Chynghorwyr

## **BWRDD YR**

### **YMDDIRIEDOLWYR**

Liz Forgan Cadeirydd  
Madhu Anjali

o 22 Mehefin 2002

Yr Athro Chris Baines  
Robert Boas

tan 16 Ebrill 2002

Iarll Dalkeith  
Nicholas Dodd  
Catherine Graham-  
Harrison

o 20 Awst 2002

Syr Angus Grossart  
Derek Langslow  
Patricia Lankester

tan 29 Ionawr 2003

Susan Palmer  
Mike Phillips  
Yr Athro Tom Pritchard  
Giles Waterfield  
Primrose Wilson  
James Wright

### **GRŴP RHEOLI**

Anthea Case

Cyfarwyddwraig  
tan 31 Mawrth 2003

Carole Souter  
Cyfarwyddwraig  
o 1 Ebrill 2003

Clara Arokiasamy  
Stephen Boyce  
Judith Cligman  
Stephen Johnson  
Louise Lane  
Patricia Langley  
Helen Palmer  
Steve Willis

### **PWYLLGOR CWYNION**

#### **AC ADOLYGU**

Brian McGeough  
Cadeirydd  
Rhodri Price Lewis QC  
Mike Taylor

## **PANELI ARBENIGOL**

### **PANEL TIR AC**

#### **ADEILADAU**

#### **HANESYDDOL**

Jane Sharman Cadeirydd  
Alan Baxter  
Peter Burman

tan 2 Rhagfyr 2002

Joyce Bridges  
o 1 Ionawr 2003  
Michael Hayes  
tan 15 Awst 2002

David Lambert  
tan 2 Rhagfyr 2002

Rodney Melville  
Alison Millward  
Michael Morrison  
Anna Ritchie  
Matthew Saunders  
David Streeter  
Hilary Taylor  
Caroline Wilson  
o 1 Ionawr 2003  
Ken Worpole  
o 19 Rhagfyr 2002

### **PANEL ARCHIFAU,**

#### **LLYFRGELLOEDD AC**

#### **AMGUEDDFEYDD**

Patrick Greene  
Cadeirydd  
tan 1 Hydref 2002  
Charles Saumarez Smith  
Cadeirydd  
fo 1 Hydref i 1 Rhagfyr 2002  
Helen Forde Cadeirydd  
o 1 Rhagfyr 2002

Sandra Bicknell  
Alan Borg  
o 1 Awst 2002

Nell Hoare  
Karen Knight  
Rita McLean  
Lis Phelan  
Norman Reid  
Jessica Rutherford  
Andrew Scott  
tan 1 Rhagfyr 2002  
J Michael Smethurst  
tan 2 Rhagfyr 2002  
David Vaisey

## **PWYLLGORAU**

### **RHANBARTHOL**

#### **LLOEGR**

#### **DWYRAIN LLOEGR**

Amanda Arrowsmith  
Cadeirydd  
Derek Langslow  
Ymddiriedolwr  
John Blatchly  
Fiona Chesterton  
o Mehefin 2002  
David Potter  
Richard Powell  
Marion Williams

#### **DWYRAIN**

#### **CANOLBARTH LLOEGR**

Tony Hams Cadeirydd  
Primrose Wilson  
Ymddiriedolwr  
Sue Clayton  
Gareth Fitzpatrick  
Derek Latham  
Angela Watson  
Catherine Wilson  
o 1 Awst 2002

#### **LLUNDAIN**

Mary Austin Cadeirydd  
Mike Phillips  
Ymddiriedolwr  
Val Bott  
Marc Jordan  
Sue Millar  
Catherine Ross  
Terry Stacy

#### **GOGLEDD DDWYRAIN**

#### **LLOEGR**

Richard Bailey Cadeirydd  
Susan Palmer  
Ymddiriedolwr  
Phillip Hughes  
Yr Athro Kevin Kaley  
Grace McCombie  
Adrian Osler  
Chris Spray

## **GOGLEDD ORLLEWIN**

### **LLOEGR**

Andrew White  
Cadeirydd  
Yr Athro Tom Pritchard  
Ymddiriedolwr  
Bruce Bennison  
Mark Blundell  
Kate Dickson  
Garry Morris  
Anne Selby

### **DE DDWYRAIN**

#### **LLOEGR**

Sarah Ward Cadeirydd  
Giles Waterfield  
Ymddiriedolwr  
Graham Collings  
Deborah Dance  
Martyn Heighton  
tan Mehefin 2002  
John Leigh-Pemberton  
Dina Thorpe  
o Mehefin 2002  
Jane Weeks

### **DE ORLLEWIN LLOEGR**

Caroline Dudley  
Cadeirydd  
Madhu Anjali  
Ymddiriedolwr  
o 1 Chwefror 2003  
Patricia Lankester  
Ymddiriedolwr  
tan 29 Ionawr 2003  
Roger Martin  
Caroline Sandwich  
Adrian Tinniswood  
David Viner  
Graham Wills

### **GORLLEWIN**

#### **CANOLBARTH LLOEGR**

Jeff Carpenter  
Cadeirydd  
Nicholas Dodd  
Ymddiriedolwr  
Peter Courtis  
Katie Foster  
Michael Freeman  
Simon Penn  
Elizabeth Perkins

## **SWYDD EFROG**

### **A HUMBER**

Ian Carstairs Cadeirydd  
James Wright  
Ymddiriedolwr  
Patrick Ferguson  
David Fletcher  
Sophie Forgan  
Terry Hodgkinson  
VV Ramaswamy

### **PWYLLGOR GOGLEDD**

#### **IWERDDON**

Primrose Wilson  
Cadeirydd ac  
Ymddiriedolwr  
Denise Ferran  
Alan Gailey  
Margaret Gallagher  
Annesley Malley  
Ian McQuiston  
Ian Murray

### **PWYLLGOR YR ALBAN**

Syr Angus Grossart  
Cadeirydd ac  
Ymddiriedolwr  
Iarll Dalkeith  
Ymddiriedolwr  
Marc Ellington  
John Gerrard  
Margaret Maclean  
Graham McNicol  
W Graham U'ren  
Jennifer Wilson

### **PWYLLGOR CYMRU**

Yr Athro Tom Pritchard  
Cadeirydd ac  
Ymddiriedolwr  
Christopher Delaney  
David Freeman  
Elinor Gwynn  
Julia Horton-McNichol  
Richard Keen

Lluniau gan Douglas Banks; Tony Bartholomew; Andrew Butler/Llyfrgell  
Ffotograffig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Mike Caldwell; Simon  
Clark; Richard Clive; Esler Crawford; Jamie O Davies; Peter Everard-  
Smith; John Glynn; Peter Gridshell; Mike Harding; Steve Hotson;  
Ray Main/Mainstream Images; Jeffrey F Morgan; Brian Morrison; PA  
Photo's Ltd.; Pacemaker; Glyn Satterley; View Pictures; David Ward;  
Zak Waters; 'World's oldest dress' drwy garedigrwydd Petrie Museum  
of Egyptian Archaeology, UCL; Simon Zisman.

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan the right stuff.  
Ymgynghorydd golygyddol, Michael Bird.

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri



### **Swyddfa**

#### **Gorfforaethol**

7 Holbein Place  
London SW1W 8NR  
Ffôn: 020 7591 6000  
Ffacs: 020 7591 6001

### **Swyddfa Gogledd**

#### **Iwerddon**

51–53 Adelaide Street  
Belfast BT2 8FE  
Ffôn: 028 9031 0120  
Ffacs: 028 9031 0121

### **Swyddfa'r Alban**

28 Thistle Street

Edinburgh  
EH2 1EN  
Ffôn: 0131 225 9450  
Ffacs: 0131 225 9454

### **Swyddfa Cymru**

Tŷ Hodge

Plas y Neuadd  
Caerdydd CF10 1DY  
Ffôn: 029 2034 3413  
Ffacs: 029 2034 3427